# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 26 Ionawr 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor (Cadeirydd), Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a/ac Joe Welch

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Addysg (KIE), Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd (JM), Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes (AS), Uwch Beiriannydd: Pontydd (JH), Rheolwr Adran: Rheoli Rhwydwaith (TT), Pennaeth Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SJ).

Hefyd yn Bresennol - Marc Berw Hughes, Uwch Ymgynghorydd Her GwE

Aelodau Cyfetholedig – roedd Kathleen Jones a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer eitem 4 ar yr agenda.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Barri Mellor, Gareth Sandilands a Martyn Holland gysylltiad personol yn eitem 4 ar yr Agenda - Canlyniadau arholiadau Cyfnod allweddol 4, am eu bod i gyd yn Lywodraethwyr Ysgol mewn ysgolion lleol.
Datganodd y Cynghorydd Colin Hughes gysylltiad personol yn eitem 6 ar yr Agenda – y Strategaeth Cynnal a Chadw Pontydd am y rheswm y trafodwyd Cadw, a'i fod yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd gan Cadw.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a ddarparodd y data perfformiad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau arholiadau allanol

ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) ac ôl-16. Cafodd gwybodaeth meincnodi hefyd ei chynnwys yn yr adroddiad ar berfformiad yr Awdurdod o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Croesawyd Uwch Gynghorydd Her GwE i'r cyfarfod ac eglurodd y data a gynhwysir yn yr adroddiad, gan gynghori bod y sir wedi gwella ei pherfformiad cyffredinol mewn perthynas â phrif ddangosydd canlyniadau CA4 ac yn bodloni'r targed a osodwyd. Oherwydd y newidiadau cenedlaethol i'r cwricwlwm, roedd ysgolion ac awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn profi cyfnod o rywfaint o ansicrwydd, a oedd yn debygol o barhau am hyd at ddwy flynedd. Yn ogystal, roedd rhai ysgolion wedi cyflwyno disgyblion ar gyfer y cymhwyster newydd flwyddyn o flaen llaw ysgolion eraill, roedd hyn wedi effeithio ar berfformiad cyffredinol yn enwedig canlyniadau Trothwy Lefel 2.

Yn dilyn ei sefydlu, ffocws cychwynnol GwE oedd cefnogi'r sector addysg gynradd i wella. O ganlyniad, arweiniodd hyn at lithriant mewn perfformiad ysgolion uwchradd ar draws y rhanbarth. Mewn ymgais i unioni'r sefyllfa hon, roedd GwE a'r awdurdod addysg lleol wedi llunio cynllun gweithredu cyflym, a oedd yn cynnwys cyflwyno ffyrdd gwell o weithio gydag ysgolion uwchradd er mwyn eu cefnogi drwy'r newidiadau i'r cwricwlwm.

Hysbyswyd yr aelodau bod gofynion adrodd Llywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â data addysgol wedi newid ar gyfer y flwyddyn 2015/16, gydag awdurdodau lleol bellach yn gorfod cynnwys gwybodaeth ystadegol yn eu data ar gyflawniad disgyblion sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Fodd bynnag, nid oedd gan awdurdodau addysg lleol ddull unffurf ar gyfer mesur, casglu neu gofnodi gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion EOTAS, ac o ganlyniad arweiniodd hyn at beth gwahaniaeth sylweddol yn y perfformiad cyffredinol a'r data meincnodi. Roedd holl awdurdodau Gogledd Cymru yn bryderus ar y dull anghyson o gofnodi gwybodaeth EOTAS ar draws Cymru ac, o ganlyniad, cawson nhw a GwE drafodaethau gyda'r LlC ar sut y gellid gwella'r dull adrodd.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dyma'r pwyntiau a gafwyd gan yr Aelod Arweiniol dros Addysg, y Pennaeth Addysg, Prif Reolwr Addysg ac Uwch Ymgynghorydd Her Gwe:

- dywedant y bu rhai newidiadau arwyddocaol o fewn GwE yn ddiweddar, gan gynnwys newid arweinyddiaeth.
- Arweiniodd hyn at werthusiad o'r sefydliad a arweiniodd at ail-alinio rolau a ffocws ar gyfer y gwasanaeth; Cadarnhawyd bod y proffil addysg gynradd yn Sir Ddinbych bellach yn dda. Roedd y ffocws bellach wedi troi tuag at y sector uwchradd lle byddai timau'n cael eu sefydlu i weithio o amgylch ysgolion unigol i'w cefnogi ar eu taith i welliant;
- cadarnhawyd bod perthynas waith gref yn bodoli rhwng GwE a Swyddogion Gwasanaeth Addysg Sir Ddinbych. Roedd y ddau bartner yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel un tîm tra hefyd yn herio'i gilydd;
- cadarnhawyd bod yr awdurdod addysg lleol yn olrhain cyrhaeddiad pob disgybl unigol yn y sir drwy gydol eu taith addysgol. Rŵan bod Addysg a'r Gwasanaethau Plant wedi cael eu huno yn un gwasanaeth, byddai'n haws i swyddogion wirio a oes unrhyw broblemau cymdeithasol yn gweithredu fel rhwystr i gyflawniad disgybl. Cydnabuwyd bod amgylchiadau unigol yn allweddol i berfformiad disgyblion;

- cynghorwyd bod LlC wedi newid ei ofynion adrodd yn hwyr yn y flwyddyn academaidd, yn rhy hwyr i alluogi i'r Cyngor ddiwygio ei gynllun darparu addysg ar gyfer y flwyddyn. Bellach, byddai’n rhaid i'r awdurdod lleol ail-alinio ei dargedau i fod yn unol â LlC;
- cynghorwyd bod proffil Prydau Ysgol am Ddim Sir Ddinbych yn 14eg, roedd hyn yn seiliedig ar y ffaith mai dyma’r 9fed ardal o amddifadedd mwyaf yng Nghymru;
- cadarnhawyd bod data’n cael ei gadw gan y Cyngor ar ddisgyblion sy'n cyflawni graddau uchel, yn enwedig y rhai a enillodd graddau A*;
- hysbyswyd yr aelodau bod yna tua 50 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych sy’n EOTAS. Roedd y Sir wedi adeiladu proffil o bob un o'r disgyblion unigol hyn, y mae rhai ohonynt wedi trosglwyddo o'r tu allan i'r ardal, ac mae angen ymyrraeth sylweddol ar nifer ohonynt;
- cynghorwyd, er bod rhai o'r ysgolion a oedd ar hyn o bryd yn achos pryder ac y byddai angen cefnogaeth ddwys wedi’i thargedu ar y rhai mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, nid adnoddau ariannol ychwanegol oedd yr ateb i’w problemau bob amser. Roedd rhai wedi dioddef o ddiffyg arweinyddiaeth effeithiol, ar lefel personél a llywodraethwr, roedd gan eraill bwysau a osodwyd arnynt oherwydd niferoedd carfan y disgyblion;
- cafodd Byrddau Gwella cyflym eu sefydlu yn nhair ysgol uwchradd y sir a oedd yn achos pryder ar hyn o bryd, gan y cydnabuwyd yn eang bod arweinyddiaeth gref ar bob lefel yn allweddol er mwyn i ysgol fod yn llwyddiannus. roedd Ysgol Brynhyfryd yn enghraifft ddiweddar o sut y gall arweinyddiaeth gref wella canlyniadau;
- dywedwyd fod y Cabinet yn ei gyfarfod yn gynharach yn yr wythnos wedi cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar gynigion i gau’r ysgol gynradd ac uwchradd Gatholig yn y Rhyl a’u disodli gydag Ysgol Gatholig 3-16 ar yr un safle, a chymeradwyo cyllid ar gyfer dylunio ysgol newydd maes o law;
- cadarnhawyd bod Penaethiaid yn y sir yn awyddus i ymgymryd â darn o waith ar sut i wella canlyniadau addysgol ar gyfer cyflawnwyr cyffredin yn y sir, gan fod ganddynt rai pryderon y gallai'r disgyblion hyn fod yn colli allan oherwydd bod adnoddau ac ymdrechion yn cael eu targedu at gyflawnwyr uchel a/neu ddisgyblion heriol. Roedd y penaethiaid hefyd yn awyddus i ystyried a fyddai'n fuddiol cyflwyno mwy o gyrsiau o fath galwedigaethol 'arall' ar gyfer y disgyblion hyn er mwyn eu cynorthwyo i wireddu eu potensial llawn. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai hyn yn ddarn defnyddiol o waith i’w gynnal ac y byddai hefyd yn fuddiol i gymharu data ar ddewisiadau disgyblion ar ddechrau Blwyddyn 10 gyda data CA4, i weld faint o ddisgyblion a 'ollyngodd' eu dewis bynciau yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd gyda'r bwriad o ddeall yr hyn a arweiniodd at eu penderfyniad. Argymhellodd y Pwyllgor bod yr astudiaethau hyn yn cael eu gwneud a bod y casgliadau’n cael eu hadrodd yn ôl iddynt maes o law;
- cytunwyd â'r aelodau bod angen i ysgolion fod yn onest gyda disgyblion wrth dderbyn eu cais i’r 6ed dosbarth. Roedd angen iddynt fod yn sicr bod Safon Uwch ac addysg yn y Brifysgol er eu lles gorau ac nad oeddent yn mynd i fethu. Mewn rhai achosion, gallai prentisiaethau weddu’n well iddyn nhw a'u helpu i wireddu eu potensial llawn;
- cadarnhawyd bod Sir Ddinbych yn perfformio uwchlaw disgwyl ei safle o ran nifer y disgyblion nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET);
- Eglurwyd y gallai 'mesurau' gwahanol a ddefnyddir ar gyfer meincnodi perfformiad ysgolion fod yn dwyllodrus weithiau, h.y. Prydau Ysgol am Ddim. Roedd Ysgol Glan Clwyd yn enghraifft wych o hyn gan fod nifer isel o

ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Golygai hyn y cai ei rhoi yn yr un grŵp meincnodi Cymru gyfan ag ysgolion mewn rhai ardaloedd cyfoethog a breintiedig iawn;

- er bod absenoldeb o'r ysgol yn gyffredinol yn dilyn patrwm wedi'i ddiffinio'n dda o fod yn fwy cyffredin ymhlith bechgyn hŷn, dywedwyd fod y duedd yn Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn wahanol gan fod absenoliaeth yn broblem ymhlith merched. Roedd yr awdurdod addysg lleol yn monitro'r sefyllfa hon yn ofalus ac mewn cysylltiad rheolaidd â'r ysgol mewn perthynas â'r mater. Ymgymerodd cynrychiolydd cyfetholedig yr Eglwys Gatholig ar gyfer craffu addysg i drafod y mater hwn a materion eraill sy'n ymwneud â'r ysgolion Catholig gyda'r Esgobaeth.

Cyn diwedd y drafodaeth sicrhaodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg y Pwyllgor fod Adran Addysg y Sir yn drylwyr iawn, ac roedd ganddo broffil manwl o bob disgybl a addysgir yn y sir, boed yn ysgolion yr Awdurdod neu yn rhywle arall. Yna, penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>yn amodol ar y sylwadau uchod -</u>***

***(i) derbyn y wybodaeth am berfformiad ysgolion y Sir a disgyblion yn erbyn perfformiad blaenorol a meincnodau allanol a oedd ar gael ar hyn o bryd;***
***(ii) bod adroddiad yn rhoi manylion am strwythur newydd GwE, yr effaith a ragwelir a'r amserlen ar gyfer gwireddu'r canlyniadau disgwyliedig (gan gynnwys y targedau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i fesur yr effeithiau) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf yn nhymor y Cyngor newydd; a***
***(iii) bod adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith sydd i'w wneud yn mesur cynnydd disgyblion rhag dewis eu pynciau ym Mlwyddyn 10 i gyflawni eu canlyniadau ar ddiwedd blwyddyn 11 (gan gynnwys graddau a ragwelir, ymyrraeth / cefnogaeth a roddir a graddau terfynol canlyniadol) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.***

## 5 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Wrth gyflwyno'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), a oedd yn ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar y dileadau, ychwanegiadau a newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, bu i'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad fanylu ar y prif newidiadau i'r Gofrestr yn dilyn yr adolygiad diweddar. Dywedodd wrth yr aelodau fod y Gofrestr yn ddogfen 'hylif' ac roedd swyddogion yn cadw llygad ar y risgiau ac ar risgiau newydd posibl. Roedd risgiau newydd posibl ar y gweill yn cynnwys Brexit, Ariannu rhaglenni gwrthdlodi a lleihau amddifadedd penodol, a diwygio'r sector cyhoeddus. Doedd dim digon o wybodaeth ar gael ar y meysydd hyn eto er mwyn galluogi i'r Cyngor benderfynu ar y risgiau roeddent yn eu peri ac unrhyw fesurau y gellid eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw risgiau.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a oedd wedi astudio proses y Gofrestr Risg yn ei gyfarfod y diwrnod blaenorol, wedi bod yn fodlon bod y broses yn un drylwyr;
- Byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen Dyfodol Gofal Cymdeithasol i Oedolion Mewnol yn parhau i gyfarfod unwaith y bydd y Cyngor newydd wedi ei ffurfio, gan fod y gwaith sy'n ymwneud â gweddnewid darpariaeth gwasanaeth gofal mewnol yn cymryd cryn dipyn o amser i'w gyflawni yn ei gyfanrwydd;
- Byddai risg rhif DCC014 sy'n ymwneud â materion Iechyd a Diogelwch bob amser yn cael ei ystyried yn un 'effaith uchel' er gwaethaf rhoi pob cam angenrheidiol ar waith, oherwydd y canlyniadau bygwth bywyd a berir gan fesurau iechyd a diogelwch annigonol;
- roedd y risg a nodwyd mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) (DCC021) yn ymwneud â rhyngwynebau rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Rŵan bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael ei sefydlu, roedd y risg o gyfathrebu a rhyngweithio gwael, a allai arwain at gamleoli blaenoriaethau, wedi'i leihau, a dyna pam y penderfyniad i leihau'r sgôr risg;
- disgwyliwyd am benderfyniad ar 'ddull newydd' posibl i weinyddu'r gronfa 'Cymunedau'n Gyntaf' bresennol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar 14 Chwefror 2017. Roedd y Cyngor yn y broses o gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar bwysigrwydd y ffynhonnell ariannu hwn ar gyfer wardiau mwyaf difreintiedig Sir Ddinbych, gan bwysleisio y gallai'r Awdurdod ddefnyddio'r arian a gwneud y mwyaf o'i ddefnydd er budd trigolion diamddiffyn yn y cymunedau difreintiedig hynny, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i'w galluogi i wella eu gwydnwch a dod yn gynaliadwy.

Amlygodd aelodau'r Pwyllgor nifer o feysydd a allai, yn eu barn hwy, beri risg sylweddol i'r Cyngor yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- yr oes ddigidol - byddai gan hyn y potensial i drawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn trafod ei holl fusnes.
- Byddai angen i'r Awdurdod fod yn barod ar gyfer y newid hwn ac yn uchelgeisiol yn y ffordd y mae'n mynd ati i sicrhau na chaiff ei adael ar ôl; disgwylir i gost gofal cymdeithasol fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael yn y dyfodol. Felly, byddai'n rhaid i'r Cyngor reoli'r risg hon yn ofalus. dylai Llywodraeth Ganolog hefyd wneud ymdrech gydunol i geisio mynd i'r afael â phrinder adnoddau yn y maes hwn; a
- risgiau sy'n ymwneud â gofal ôl-lawfeddygol cleifion unwaith y penderfynir na fyddai angen gofal mewn lleoliad ysbyty acíwt arnynt.

Ar ddiwedd y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor

***<u>Benderfynu:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod i nodi'r dileadau, yr ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.***

## 6 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PONTYDD

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn amlinellu'r dull y mae'r Cyngor yn rheoli asedau ei strwythur priffyrdd ac eglurodd sut y bwriedir rheoli ei ôl-groniad presennol o waith mewn perthynas â'r asedau strwythurol hynny. Drwy gyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Uwch Beiriannydd – o adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, drosolwg o ddull y Sir i reoli ei Strwythurau Priffyrdd. Amlinellodd y diffiniadau ar gyfer y gwahanol adeileddau priffyrdd a oedd yn ffurfio ystâd Strwythurau Priffyrdd y Cyngor, ynghyd â nifer o strwythurau ym mhob categori:

- 150 o bontydd priffyrdd (53 ohonynt yn rhestredig a 6 arall yn gofrestredig);
- 258 o gylfatiau;
- mwy na 300 o waliau cynnal; a
- mwy na 300 yn bontydd o Hawl Dramwy Gyhoeddus

Pe bai'n rhaid i'r Cyngor newid pob un o'r uchod, byddai'n costio tua £313m. Yn ogystal â Ddeddf Priffyrdd 1980, roedd gan y Cyngor ddyletswydd hefyd i gynnal a chadw'r holl henebion cofrestredig neu restredig (gan gynnwys pontydd).

Bu i'r Uwch Beiriannydd:

- amlinellu'r Broses Rheoli Asedau ar ôl y Cyngor a'r myrdd o Nodiadau Cyngor a safonau diogelwch BSEN yr oedd yn rhaid cydymffurfio â hwy;
- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd manwl Sir Ddinbych sy'n nodi'r safonau lleol a'r dull sy'n seiliedig ar risg a fabwysiadwyd i amlder arolygu – roedd y dull hwn, a fabwysiadwyd hefyd gan Awdurdodau Priffyrdd y Sir eraill ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, wedi arbed swm sylweddol o arian i'r awdurdod o gymharu â chydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol heb gyfaddawdu diogelwch defnyddwyr asedau;
- amlinellu'r symiau o arian a ddyrannwyd o fewn Refeniw a Chyllideb Cyfalaf bloc yr adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar gyfer 2016/17 ar gyfer rheoli strwythur priffyrdd, a dywedodd fod hyn yn cyfateb i £445k;
- darparu data ar y nifer o strwythurau a oedd wedi cael eu hasesu fel strwythurau gwan, rhai ohonynt eisoes wedi cael eu rhoi dan orchmynion cyfyngiad pwysau. Manylwyd ar yr amrywiol gyfyngiadau pwysau a gymhwysir fel arfer ar strwythurau, a'r mathau o gerbydau a fyddai'n cael eu heffeithio gan wahanol gyfyngiadau. Er bod cyfyngiadau pwysau yn cael eu cymhwyso ar sail diogelwch, gallent o bosibl gael effaith andwyol ar drigolion, busnes, bywyd cymunedol a mynediad cerbydau brys i ardaloedd ac eiddo;
- arddangos tystiolaeth ffotograffig o wahanol strwythurau priffyrdd a'r gwahanol fathau o erydiad / dirywiad deunydd a gafwyd, a gwaith atgyweirio a wnaed neu sy'n ofynnol ar y nifer o strwythurau ar draws y sir;
- cynghori bod yr atodiad i'r adroddiad yn rhoi manylion y costau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â'r strwythurau yn y Prosiect Ôl-groniad Strwythurau Priffyrdd arfaethedig. Cost amcangyfrifedig y prosiect hwn fyddai tua £6m dros gyfnod o 10 mlynedd a byddai'n cael ei ariannu ar y cyd gan y Gyllideb Cyfalaf Bloc y Briffordd, a oedd wedi cynyddu tua £320K y flwyddyn. Ymgymryd â'r prosiect dros gyfnod o 10 mlynedd a fyddai'n sicrhau na fyddai prosiectau eraill

a ariennir o fewn Cyllideb Gyfalaf y Bloc Priffyrdd yn cael ei effeithio'n andwyol o achos dargyfeirio cyllid oddi wrthynt i'r prosiect strwythurau. Yn ystod y gwaith hwn, byddai pontydd a waliau cynnal yn cael eu cyfyngu er mwyn lleihau cyfradd y dirywiad a sicrhau nad fyddant yn disgyn. Cynigiwyd hefyd i gynyddu'r gyllideb refeniw i gefnogi'r rhaglen ôl-groniad ac i gynnal rhaglen cynnal a chadw ataliol wedi'i chynllunio. Mae nifer o fesurau effeithlonrwydd, gan gynnwys cyflogi staff arbenigol yn hytrach na phrynu gwasanaethau gan arbenigwyr allanol, yn cael eu harchwilio er mwyn gwireddu gwerth am arian yn ystod cwrs y prosiect. Byddai gweddill y gofyniad cyllideb arfaethedig yn destun cais cyfalaf ychwanegol maes o law;

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, cynghorodd yr Aelod Arweiniol, yr Uwch Beiriannydd a Rheolwyr y Gwasanaeth Priffyrdd y canlynol:

- bod y rhestr flaenoriaethu ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar strwythurau yn hyblyg ac yn amodol i newid yn rheolaidd o ganlyniad i newidiadau sydyn yn eu cyflyrau materol, h.y. difrod tywydd / llifogydd difrifol; difrod strwythurol a achosir gan gerbydau ac ati;
- mae angen gweithio drwy faterion megis perchnogaeth trydydd parti a mynediad i strwythurau ar gyfer gwaith cynnal a chadw;
- cynhaliwyd asesiadau strwythurol ar y cyfan gan ddefnyddio dulliau modelu mathemategol;
- dim ond wrth asesu strwythurau y gellid cadarnhau maint gwirioneddol y difrod/erydiad. Yn ystod asesiadau o'r fath y bu modd i beirianwyr hefyd sefydlu p'un a gafodd strwythurau eu hadeiladu mewn gwirionedd ar strwythurau llawer cynharach ar draws afon ac ati;
- ychydig iawn o gynghorau a gyrhaeddodd y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Strwythurau Priffyrdd, cynhaliodd y mwyafrif ddull yn seiliedig ar risg tuag at reoli asedau;
- roedd sgwrio yn broblem fawr gan ei fod yn tanseilio sylfaen nifer o strwythurau;
- cafodd fformat llwytho cerbydau amaethyddol ei 'rannu' yn fwy cyfartal o gymharu â Cherbydau Nwyddau Trwm (HGVs) ac, o ganlyniad, priodolwyd llai o ddifrod strwythur priffyrdd iddynt;
- cynhaliwyd rhaglen reolaidd o gynnal a chadw ar bont fwyaf y sir, y bont sy'n croesi afon Clwyd ar y ffordd osgoi i Ruddlan. Cafodd pontydd modern fel yr un yma eu cynllunio i bara 120 o flynyddoedd, er hynny byddai'n rhaid eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd yn ystod eu hoes;
- Roedd Cadw wedi darparu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith a wnaed ar bont yr afon Elwy ar waelod y Stryd Fawr yn Llanelwy;
- ni ystyrir bod yr hen bont dros yr afon Clwyd yn Rhuddlan mewn perygl uniongyrchol rŵan ei bod wedi ei chyfyngu i draffig un lôn, gan mai lledu'r dur 19eg ganrif allanol oedd yn achosi pryder, nid y strwythur cerrig cynharach a gafodd ei restru;
- roedd yn rhaid asesu manteision carthu afonydd o dan bontydd ar sail pont wrth bont, oherwydd mewn rhai achosion gallai hyn achosi mwy o broblemau yn yr hirdymor;
- mae lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng swyddogion priffyrdd y Cyngor, swyddogion treftadaeth a Cadw, sy'n helpu i wneud gwaith trwsio ac ati yn gyflym pan fo angen, fel y digwyddodd pan ddioddefodd Pont Nantglyn ddifrod

gan gerbyd.  Sicrhaodd y lefel o ymddiriedaeth cydfuddiannol rhwng pob parti y cafodd y bont ei thrwsio o fewn cyfnod byr o amser, gan leihau'r aflonyddwch i drigolion a defnyddwyr lleol;

- cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd rhwng swyddogion Cyllid a Phriffyrdd, gyda golwg ar lunio cynllun gwaith ôl-groniad, yn seiliedig ar effeithlonrwydd y gwasanaeth a strategaeth gwario i arbed hirdymor heb yr angen i wneud cais ar gyfer benthyca darbodus;
- roedd swyddogion wedi ystyried cynllun gwaith ôl-groniad o 5 mlynedd, ond byddai hyn wedi mynd i gostau sylweddol uwch;
- roedd swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â siroedd cyfagos ynghylch amodau strwythurau sy'n rhychwantu afonydd ar ffiniau'r sir ac a oedd yn gwasanaethu fel llwybrau mynediad i'r sir ac oddi yno, e.e. Pont y Ddôl, yn ward Trefnant;
- fe wnaeth y Cyngor hysbysu sawl darparwr rhaglenni llywio lloeren unwaith y rhoddwyd cyfyngiadau pwysau ar strwythurau neu pan gafodd unrhyw hysbysiadau cyfreithiol yn ymwneud â'r system briffyrdd eu cyhoeddi.  Cyfrifoldeb y darparwr yw diweddaru ei raglenni 'sat nav';
- Mae gan berchnogion pontydd trydydd parti yr un cyfrifoldebau â'r Cyngor i gynnal eu hasedau. Fodd bynnag, mae Deddf Trafnidiaeth 1968 yn gosod rhai rhwymedigaethau ariannol ar gynghorau i gryfhau rhai pontydd sy'n eiddo i drydydd parti; ac
- mae'r Cyngor wedi codi arwyddion cynghorol lle cafodd cyfyngiadau ac ati eu gosod.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) fod SIG wedi cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer y Prosiect Ôl-groniad Strwythurau Priffyrdd, gan argymell y dylai'r Cyngor Sir eu cymeradwyo.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am gyflwyniad llawn gwybodaeth a chydnabod y byddai angen swm syfrdanol o fuddsoddiad i godi'r holl strwythurau i Safonau Cenedlaethol.  Roeddent o'r farn felly mai'r dull rheoli a awgrymwyd yn yr adroddiad oedd ffordd resymegol o fynd i'r afael â'r ôl-groniad a'r risgiau a nodwyd.
**Penderfynodd** y Pwyllgor:-

***gefnogi ymagwedd y Gwasanaeth i reoli ôl-groniad y gwaith mewn perthynas ag asedau strwythurau'r priffyrdd yn unol â'r Prosiect Ôl-groniad Strwythurau Priffyrdd a awgrymir.***

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o’i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a’r ychwanegiadau canlynol:-

- 16 Mawrth, 2017: Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwahodd Aelodau Arweiniol i fynychu’r cyfarfod.
- Dwyn ymlaen yr adroddiad ar y Strategaeth Tai Lleol o 27 Ebrill i'r cyfarfod ar 16 Mawrth 2017.
- Ymgorffori adroddiad ar Safonau a pherfformiad Gwasanaeth Llyfrgell yn y cyfarfod ar 16 Mawrth 2017 fel y cynigiwyd yn Atodiad 2(a).
- Canslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 27 Ebrill 2017.

***PENDERFYNWYD - yn amodol ar y newidiadau a’r cytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Hysbysodd y Cynghorydd Barry Mellor (Cadeirydd) y Pwyllgor ei fod wedi dod yn Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn ddiweddar ac roedd yn obeithiol iawn y bydd Cadeirydd newydd y Llywodraethwyr yn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:50**